

# Cyfeiriadur Arloesedd Cymru

## Beth yw hwn?

Mae'r [Cyfeiriadur Arloesedd](#) yn adnodd ar-lein sydd ar wefan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Mae'n cynnig manylion hanfodol i ddefnyddwyr am sefydliadau yng Nghymru sy'n ymwneud yn weithredol â hyrwyddo arloesedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Yma, bydd defnyddwyr yn gallu darganfod a chysylltu â sefydliadau ar hyd a lled Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r cyfeiriadur yn darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r sefydliadau canlynol yng Nghymru:

- 260+ o Gwmnïau Gwyddorau Bywyd (Diwydiant)
- Sefydliadau iechyd – Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau, Canolfannau Arloesi a Chyfathrebu Rhanbarthol, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac ati.
- Sefydliad sy'n Cefnogi Arloesedd
- Prifysgolion
- Academïau Dysgu Dwys

Sylwch nad yw ein cyfeiriadur yn honni ei fod yn cynnwys pob sefydliad yng Nghymru. Rydyn ni wrthi'n datblygu'r cyfeiriadur drwy gydol 2024 ac rydyn ni'n croesawu adborth a cheisiadau gan sefydliadau sydd eisiau cael eu cynnwys. Ar ben hynny, mae hi'n bwysig cofio na fydd sefydliadau gofal cymdeithasol Cymru yn cael eu cynnwys, gan fod modd dod o hyd iddynt yn barod drwy [Arolygiaeth Gofal Cymru](#).

## Beth fyddwch chi'n dod o hyd iddo...

Gyda phob sefydliad sy'n cael ei restru, byddwch chi'n cael:

- trosolwg cryno o'r sefydliad
- dolen i'w gwefan os yw ar gael
- amlinelliad o'r gwasanaethau maen nhw'n eu cynnig.

Bydd pob sefydliad yn cael ei restru yn ôl y math o sefydliad a'i sector, a fydd yn galluogi'r defnyddwyr i hidlo ac i chwilio ar sail:

- **Math:** Cyhoeddus, Preifat, GIG, Llywodraeth (Lleol, y DU, Cymru)
- **Sector:** Gofal Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Gwyddorau Bywyd, Cynhyrchion Fferyllol, Technoleg Feddygol, Iechyd Digidol, Diwydiant, Academia, Cymorth Arloesi

## Pwrpas

Y nod yw ei gwneud mor hawdd â phosibl i ddefnyddwyr chwilio am wahanol sefydliadau yng Nghymru sy'n rhan o ecosystem arloesedd Cymru.

## Ymwadiad

Nid yw cael eich cynnwys yn y cyfeiriadur yn golygu eich bod yn cael eich cymeradwyo gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Nid yw'r rhestrau'n dilysu cynnyrch, gwasanaethau na

sefydliadau penodol. Anogir defnyddwyr i gynnal eu prosesau diwydrwydd dyladwy eu hunain.

## Adborth

Byddwch yn gwybod bod y Cyfeiriadur Arloesedd yn y cam BETA ar hyn o bryd. Rydyn ni'n croesawu ac yn gwerthfawrogi eich adborth.

## Ymunwch â'r rhestr!

Mae Cymru'n cynnig ecosystem ddeinamig, sy'n grymuso arloeswyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. I gael rhagor o wybodaeth neu i ymddangos yn ein cyfeiriadur, cysylltwch â [hello@lshubwales.com](mailto:hello@lshubwales.com) heddiw.

## Ceisiadau i newid

Mae sefydliadau'n gallu gwneud cais i newid / diweddarau eu manylion drwy anfon neges at [hello@lshubwales.com](mailto:hello@lshubwales.com). Rydyn ni'n annog pob sefydliad i lynu wrth y canlynol:

**Trosolwg:** Rydyn ni'n argymhell dim mwy na 100 gair. Po fyrraf y disgrifiad, yr hawsaf yw hi i ddefnyddwyr dreulio'r wybodaeth.

**Dolen i'r wefan:**

**Daearyddiaeth:** Cymru

**Sector:** Dim mwy na dau neu dri o dagiau ar gyfer pob sefydliad.

**Gwasanaeth:** Dim mwy na phedwar i chwech o dagiau ar gyfer pob sefydliad.

**Math:** Mae'r opsiynau'n cynnwys: Cyhoeddus / Preifat / GIG / Llywodraeth

**Arbenigedd:** Dim mwy na phum i wyth o eiriau.

Rhaid i staff perthnasol y sefydliad sy'n cael ei restru yn y cyfeiriadur awdurdodi ceisiadau i newid. Byddem yn disgwyl cael ceisiadau o'r fath gan uwch staff awdurdodedig fel y Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Prif Swyddog Gweithredol ac ati, cyn gwneud unrhyw newidiadau.

## Diweddariadau blynyddol

Unwaith y flwyddyn, byddwn yn adolygu'r gronfa ddata ac yn gwneud diweddariadau angenrheidiol. Bydd y diweddariadau blynyddol hyn yn cael eu gwneud ym mis Rhagfyr i gyd-fynd â diweddariadau cronfa ddata'r Swyddfa Gwyddorau Bywyd.